**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a'r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Llyr Gruffydd AS
Cadeirydd
Pwyllgor Newid Hinsawdd, yr Amgylchedd a Seilwaith
Senedd Cymru
SeneddClimate@senedd.cymru

20 Rhagfyr 2022

Annwyl Llyr,

Yn dilyn fy llythyr, dyddiedig 23 Tachwedd, hoffwn roi gwybod i'r Pwyllgor fy mod wedi rhoi fy nghydsyniad i'r Gweinidog Gwladol dros Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig osod Rheoliadau Iechyd Anifeiliaid a'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Diwygio) 2022 erbyn 19 Rhagfyr. Rwyf wedi gwneud Datganiad Ysgrifenedig, y gellir ei weld yn https://senedd.cymru/media/mkkdrj3n/ws-ld15574-w.pdf

Mae'r Rheoliadau yn caniatáu i ardaloedd â ffiniau penodedig gael eu sefydlu y tu allan i'r wlad y canfu plâu neu heintiau planhigion ynddi. Mae'r rhain yn fesurau bioddiogelwch pwysig a roddir ar waith ar adegau pan geir achosion o blâu neu heintiau planhigion sy'n cyfyngu ar symud pren, planhigion ar gyfer plannu neu ddeunydd coedwigaeth. Maent yn angenrheidiol oherwydd nid yw'r ddeddfwriaeth bresennol yn caniatáu i ardal â ffiniau penodedig gael ei sefydlu pan ganfyddir pla o fewn un o'r tiriogaethau eraill ym Mhrydain Fawr. Mae hyn yn golygu, pan geir achosion o bla neu haint planhigion mewn un wlad, yn gyfagos i'r ffin, ar hyn o bryd nid oes gan y wlad arall unrhyw bŵer i gyflwyno ardaloedd â ffiniau penodedig fel mesur bioddiogelwch.

Yn yr achos hwn, ni allai Gweinidogion Cymru wneud y darpariaethau wrth arfer ein pwerau ein hunain oherwydd bod y pŵer i ddiwygio yn ganlyniadol i ddiwygiad a wneir gan yr Ysgrifennydd Gwladol. Oherwydd y gwneir Rheoliadau i Gymru o dan adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972, o dan adran 8 o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 gall y Rheoliadau hyn gael eu diwygio gan Weinidog y Goron. Mae Rheoliadau Iechyd Planhigion (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2022 yn cael eu gwneud o dan adran 8(1) o Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, ac mae paragraff 21 o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 yn darparu pŵer sy'n caniatáu i ddiwygiadau canlyniadol gael eu gwneud i Reoliadau yn ôl yr angen (yn yr achos hwn, ar ôl diwygio'r Rheoliadau Iechyd Planhigion). Mae'r Rheoliadau'n croestorri â pholisïau datganoledig a byddant yn berthnasol i Gymru, Lloegr a'r Alban.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Lesley.Griffiths@llyw.cymru
Correspondence.Lesley.Griffiths@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae’r Rheoliadau hefyd yn cywiro mân wallau drafftio o fewn Rheoliadau Anifeiliaid, Bwyd, Iechyd Planhigion, Deunyddiau Lluosogi Planhigion a Hadau (Diwygiadau Amrywiol etc.) 2022 sy’n ymwneud â thatws Libaneaidd nad ydynt i’w plannu.

Mae angen cyflwyno’r ddeddfwriaeth hon ar fyrder er mwyn diogelu bioamrywiaeth yng Nghymru. Rwyf o’r farn mai dyma’r ffordd fwyaf priodol o roi effaith i’r newidiadau angenrheidiol.

Rwyf wedi ysgrifennu yn yr un modd at Huw Irranca-Davies AS, Cadeirydd y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad.

Yn gywir,



**Lesley Griffiths AS/MS**
**Y Gweinidog Materion Gwledig a Gogledd Cymru, a’r Trefnydd**
**Minister for Rural Affairs and North Wales, and Trefnydd**